Paul Chapman

# Oswald Mosley
## Ffasgaeth ym Mhrydain

Ffynhonnell A



© TopFoto

*Oswald Mosley yn annerch Undeb Ffasgwyr Prydain (BUF) yn 1936*

Ffynhonnell B

**Mudiadau Ffasgaidd cynnar ym Mhrydain**

(a) **Y Fascisti Prydeinig** Sefydlwyd ym mis Mai 1923 gan Rotha Linton Orman, dynes ifanc a oedd, cyn hynny, wedi gyrru ambiwlans yn Serbia yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Denodd ychydig filoedd o aelodau, gan gynnwys swyddogion milwrol oedd wedi ymddeol, ieuenctid o'r dosbarth canol uchaf ac arglwyddi anadnabyddus. Wedi gwario cryn amser yn trafod y ffordd gywir o ynganu 'Fascisti' newidiodd y mudiad ei enw i'r '**Ffasgwyr Prydeinig**' yn 1924. Creodd 'Sgwadiau Hedfan' gyda cheir, beiciau modur a beiciau i gyflawni mân weithredoedd treisgar, megis ymosodiadau ar werthwyr papurau newydd adain chwith. Stynt fwyaf trawiadol y mudiad oedd herwgipio Harry Pollitt, arweinydd Comiwynddion Prydain, ym mis Mawrth 1925, er iddo gael ei ryddhau'n fuan ac yn ddianaf. Roedd diffyg cydlyniad a datblygiad o ran syniadau'r blaid. Roeddent yn cynnwys awydd amhendant am unbennaeth a pharodrwydd i ddefnyddio trais. Un syniad oedd torri trethi bonheddwyr fel y gallent fforddio cyflogi mwy o weision, ac felly gostwng diweithdra! Bu rhai o'r Ffasgwyr Prydeinig yn helpu i redeg gwasanaethau hanfodol yn ystod Streic Gyffredinol 1926, er gwaethaf amharodrwydd y llywodraeth i ganiatáu iddynt chwarae rhan. Cafodd un ei ladd wedi iddo wthio ei ben allan o injan drên wrth iddi agosáu at bont. Wedi hyn dechreuodd y blaid ddatgymalu'n raddol, ac erbyn 1935, pan fu farw Orman, roedd wedi chwalu i bob pwrpas.

(b) **Y Gynghrair Ffasgaidd Ymerodrol (*Imperial Fascist League*)** Sefydlwyd gan Arnold Leese, milfeddyg canol oed. Arferai fod yn aelod o'r Ffasgwyr Prydeinig, ond gadawodd y mudiad hwnnw oherwydd ei fod yn rhy gymedrol iddo, ac erbyn 1929 roedd wedi sefydlu ei fudiad ei hun. Roedd gan y mudiad syniadau ewgenig (bridio dethol y boblogaeth) a hiliol cryf, gan gredu ym mhwysigrwydd creu cymdeithas oedd yn cael ei harwain gan y pur a'r talentog, ac roedd yn wenwynig o wrth-Iddewig. Roedd ychydig filoedd o aelodau, dosbarth canol yn bennaf, wedi eu trefnu'n 'Llengoedd'. Roedd yn fwy o siop siarad na phlaid dreisgar ymarferol. Yn y diwedd, gwnaeth Leese ymosodiadau geiriol mor waradwyddus ar Iddewon fel iddo gael ei erlyn a'i garcharu. Erbyn iddo gael ei ryddhau yn 1937 roedd ei fudiad wedi dod i ben.

*Roger Eatwell*, Fascism: A History, *1995.*

1. Darllenwch Ffynhonnell B.
   Beth oedd gwendidau y mudiadau Ffasgaidd cynnar ym Mhrydain?

2. Astudiwch Ffynhonnell C.
   Beth oedd cryfderau a gwendidau Mosley fel arweinydd posibl plaid wleidyddol dorfol?

Nid trwy ddamwain y datblygodd mudiadau Ffasgaidd yn Ewrop yn ystod y blynyddoedd yn syth wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf. Nid oedd Prydain yn rhydd rhag y dylanwadau hyn ac roedd grwpiau bychain yn weithredol yn yr 1920au (gweler Ffynhonnell B). Dim ond yn yr 1930au, fodd bynnag, gyda ffigur lliwgar Oswald Mosley, yr ymddangosodd plaid Ffasgaidd fel grym posibl yng ngwleidyddiaeth genedlaethol y DU.

Beth oedd natur ffasgaeth ym Mhrydain yn yr 1930au? Pa mor ddifrifol oedd Mosley fel bygythiad i'r sefydliad gwleidyddol? A pham y gwnaeth ffasgaeth fethu ag ennill grym ym Mhrydain pan fu mor llwyddiannus yn yr Almaen, yr Eidal a Sbaen?

## Oswald Mosley

Yn wahanol i Mussolini a Hitler, roedd Oswald Mosley yn dod o gefndir breintiedig. Cafodd ei ethol yn AS i ddwy blaid wleidyddol amlwg, gan wasanaethu fel is-weinidog yn llywodraeth Lafur 1929 cyn sefydlu ei blaid wleidyddol ei hun (gweler Ffynhonnell C). Ar y cychwyn, roedd Mosley yn gallu defnyddio ei gysylltiadau gwleidyddol a chymdeithasol i greu cyhoeddusrwydd ac ennill rhywfaint o gefnogaeth yn y cyfryngau, gan sicrhau lansiad mwy addawol i ffasgaeth ym Mhrydain nag yn yr Eidal neu'r Almaen.

Fel y ddau fudiad Ffasgaidd arall, roedd un Prydain hefyd yn ddibynnol iawn ar bersonoliaeth ei arweinydd. Un nodwedd amlwg oedd y cyfarfodydd a'r ralïau torfol y gwnaeth Mosley areithiau cynhyrfus ynddynt (gweler Ffynhonnell D). Dywedwyd ei fod yn areithio'n rymus iawn, ond codwyd cwestiynau am ei ddibynadwyedd a'i wytnwch. Yn wahanol i Hitler a Mussolini, roedd Mosley yn gwrthwynebu rhyfel ac, er bod ei gefnogwyr yn defnyddio trais yn eu hymgyrchoedd, ni chafwyd y marwolaethau a nodweddodd dwf ffasgaeth yn yr Almaen a'r Eidal.

### Ffynhonnell C

**Bywgraffiad Oswald Mosley**

| | |
|---|---|
| **1896** | Ganwyd i deulu cefnog yn Swydd Stafford. |
| **1905** | Gadael cartref i fynd i ysgol baratoadol. |
| **1908** | Symud i breswylio yn ysgol fonedd Winchester. |
| **1913** | Ymuno â'r fyddin a mynd i goleg hyfforddi swyddogion Sandhurst. |
| **1914** | Gwasanaethu yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Gwirfoddolodd i adael ei gatrawd gafalri, oedd wedi'i lleoli yn Iwerddon, i ymuno â'r Corfflu Hedfan Brenhinol. Cafodd ei anafu mewn damwain hedfan (yn dangos ei hun o flaen ei fam), ac yna dychwelodd at ei gatrawd gafalri, gan wasanaethu heb geffylau, yn y ffosydd. |
| **1917** | Treulio 2 flynedd olaf y rhyfel yn gweithio yn Llundain, yn y Weinyddiaeth Arfau a'r Swyddfa Dramor. |
| **1918** | Cael ei ethol yn AS Ceidwadol Harrow, ac yntau'n 21 oed. |
| **1926** | Wedi iddo adael y Ceidwadwyr, daeth yn AS Llafur ar gyfer Smethwick. |
| **1929** | Penodi'n weinidog yn yr ail lywodraeth Lafur. Ei deitl oedd Canghellor Dugaeth Caerhirfryn, er ei fod oddi allan i'r cabinet. Roedd yn gyfrifol yn benodol am fynd i'r afael â diweithdra, ond nid oedd ganddo'r awdurdod angenrheidiol i wneud hynny. |
| **1930** | Ymddiswyddo o'r llywodraeth pan wrthodwyd ei gynigion ar gyfer mynd i'r afael â diweithdra drwy gyfrwng cynlluniau adeiladu cyhoeddus. Heriodd arweinyddiaeth y blaid yn aflwyddiannus yng nghynhadledd flynyddol y blaid. |
| **1931** | Sefydlodd y Blaid Newydd (*New Party*) a chreu grŵp 'diogelu', sef y 'Biff Boys'. Gwnaeth pob un o'r 24 ymgeisydd yn wael yn yr etholiad cyffredinol. |
| **1932** | Ymweld â'r Eidal Ffasgaidd. Sefydlu Undeb Ffasgwyr Prydain (BUF – *British Union of Fascists*). |
| **1934** | Aelodaeth y blaid yn codi i'w phwynt uchaf erbyn Mehefin. Rali fawr yn Olympia ym Mehefin yn denu cyhoeddusrwydd gwael, a waethygwyd gan Noson y Cyllyll Hirion yn yr Almaen. |
| **1936** | Lansio ymgyrch wrth-Iddewig ffyrnig, a arweiniodd yn y pen draw at 'Frwydr Cable Street'. Ymwelodd â'r Almaen Natsïaidd ac ailbriododd, gyda Joseph Goebbels yn bresennol yn y briodas. |
| **1937** | Y BUF yn wynebu argyfwng ariannol mawr. |
| **1939** | Pwysleisio gwladgarwch ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd. |
| **1940** | Mwyafrif yr arweinwyr Ffasgaidd yn cael eu harestio a'u carcharu wedi i'r Almaen oresgyn Ffrainc. |
| **1948** | Creu'r *Union Movement* mewn ymgais i ailgychwyn gyrfa wleidyddol, gan ddenu ychydig filoedd o gefnogwyr. |
| **1959** | Methu â chael ei ethol fel AS Gorllewin Kensington ar raglen o ddychwelyd mewnfudwyr duon i'w mamwlad, gan ennill dim ond 8% o'r bleidlais a cholli ei ernes (*deposit*). |
| **1966** | Methu â chael ei ethol fel AS gyda phleidlais hyd yn oed yn is, a chyhoeddi ei ymddeoliad o 'ryfela pleidiol'. |
| **1980** | Mosley yn marw. |

Ffynhonnell Ch

I ennill grym i Ffasgaeth ac felly sefydlu ym Mhrydain Fawr y Wladwriaeth Gorfforaethol a fydd yn sicrhau bod -

Pawb yn gwasanaethu'r wladwriaeth, a neb y garfan;

Pawb yn gweithio ac felly'n cyfoethogi eu gwlad a'u hunain;

Cyfle ar gael i bawb ond breintiau i neb;

Statws uchel yn cael ei ganiatáu i'r rhai â nifer o ddoniau yn unig;

Gwobrwyo am wasanaeth yn unig;

Tlodi'n cael ei ddileu gan rym gwyddoniaeth fodern yn cael ei rhyddhau o fewn y wladwriaeth gyfundrefnus;

Rhwystrau dosbarth yn cael eu dinistrio ac egni pob dinesydd yn cael ei gyfeirio tuag at wasanaethu Cenedl Prydain sydd, yn sgil ymdrechion ac aberth ein tadau, wedi bodoli'n odidog am ganrifoedd cyn y genhedlaeth fyrhoedlog hon, ac a fydd drwy gyfrwng ein hymdrechion ni yn cael ei chodi i'w thynged uwch – '*the Greater Britain of Fascism*'.

*Nodau ac amcanion Undeb Ffasgwyr Prydain, fel y'u hargraffwyd ar gefn y cerdyn aelodaeth.*
*Dyfynnwyd yn Nicholas Mosley,* Rules of the Game/Beyond the Pale, *1998.*

**3** Darllenwch Ffynhonnell Ch. Pa grwpiau o bobl fyddai'n barod, o bosibl, i gyd-fynd â syniadau Mosley?

## Undeb Ffasgwyr Prydain

Cafodd Undeb Ffasgwyr Prydain (BUF) ei sefydlu yn 1932, a'r aelodaeth yn bennaf yn dod o'r dosbarth canol isaf. Tyfodd yn sydyn, gan symud i bencadlys newydd (y 'Black House') yn King's Road, Llundain yn Awst 1933. Roedd yn rhaid i'r aelodau dalu tanysgrifiad misol o swllt (dim ond 4d os oeddynt yn ddi-waith) ac roedd yn rhaid iddynt brynu eu crys du fel lifrai eu hunain (roedd hwn yn costio 7/6d pan oedd budd-dal diweithdra yn 18/- (18 swllt) yr wythnos).

Bathodyn y blaid oedd y 'fasces', a ddefnyddiwyd gan Blaid Ffasgaidd yr Eidal, a chafodd y BUF nawdd sylweddol gan Mussolini yn ei blynyddoedd cynnar. Roedd yr aelodau'n canu'r 'Marching Song' i dôn 'Horst Wessel' y Natsïaid ac 'Onwards Blackshirts' i dôn anthem y Ffasgwyr Eidalaidd, 'Giovinezza'.

Roedd gan y Gwarchodlu Ffasgaidd (*Fascist Defence Force*), neu'r *'I' Squad*, lifrai arbennig sef trowsus pen-glin a bŵts lledr ac roedd ei aelodau'n cael hyfforddiant bocsio a jiwdo fel y gallent ddelio ag ymyriadau mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Fel mudiadau Ffasgaidd Ewropeaidd, roedd y BUF yn seiliedig ar drefniadaeth barafilwrol a'r bygythiad o drais. Roedd ei syniadau yn rhai cenedlaetholgar cryf. Yn raddol, daeth gwrth-Iddewiaeth yn fwy amlwg (gweler Ffynhonnell E).

## Pa mor ddifrifol oedd y bygythiad Ffasgaidd?

Ar y cychwyn denodd y BUF lawer o sylw ac ymddangosai fel petai ganddi siawns eithaf da o lwyddo. Roedd gan Mosley ei hun yn amlwg dalent, ac yr oedd ganddo hefyd gysylltiadau personol ag aelodau o'r dosbarthiadau uwch. Ym mis Ionawr 1934 cafodd y BUF gefnogaeth gan yr Arglwydd Rothermere, a ysgrifennodd yn y *Daily Mail* dan y pennawd 'Hurrah for the Blackshirts!' Roedd Rothermere hefyd yn berchen ar yr *Evening News* a'r *Sunday Dispatch*, gan olygu cefnogaeth rymus iawn i Mosley gan y wasg. Yn y misoedd wedi hyn, roedd y Blackshirts yn denu 1,000 o aelodau yr wythnos yn Llundain yn unig, wedi sefydlu dros 300 o ganghennau ledled y wlad ac, yn ôl y sôn, fe gyraeddasant uchafswm o 30,000–40,000 o aelodau. Gostyngodd y niferoedd hyn wedi i Rothermere dynnu ei gefnogaeth a'i nawdd yn ôl 6 mis yn ddiweddarach, yn dilyn anghytundeb ynghylch polisi.

Ni wnaeth diddordeb cychwynnol gan ffigurau eraill o fewn y sefydliad erioed droi'n gefnogaeth ymarferol ac, yn hanfodol, methodd y BUF ag ennill digon o bleidleisiau i gael ei haelodau wedi'u hethol – ddim i'r Senedd a ddim hyd yn oed i lywodraeth leol. Roedd yr awdurdodau'n barod i gymryd camau cadarn ymhell cyn i ffasgaeth gael ei sefydlu fel her o ddifrif (gweler Ffynhonnell F).

Yn 1935 nid oedd Mosley yn teimlo'n ddigon cryf i gynnig ymgeiswyr yn yr etholiad cyffredinol. Yn 1937 fe wnaeth y BUF gynnig ymgeiswyr mewn etholiadau lleol, gan deimlo'n arbennig o obeithiol am ganlyniad da yn yr East End yn Llundain. Yn y fan hon fe enillwyd 23% o'r bleidlais yn Bethnal Green, 19% yn Limehouse ac 14% yn Shoreditch. Yng Nghaeredin, Leeds, Sheffield a Southampton roedd eu canlyniadau'n bitw. Roedd ffasgaeth ym Mhrydain wedi cyrraedd ei hanterth ac roedd ar drai.

## Ffynhonnell D

. . . gorymdeithiodd prosesiwn o ddeuddeg o gludwyr baneri i mewn yn cario baneri Jac yr Undeb a baneri Ffasgaidd am yn ail ... trodd y llifoleuadau yn ôl tuag at y brif fynedfa, ac yno y safai'r Gŵr Tynghedus. . . Yn araf fe gamodd ar draws y neuadd, ei frest allan, ei ben golygus wedi'i daflu'n ôl, tra bod ei ddilynwyr, pob dyn ar ei draed, yn ei gymeradwyo ac yn gweiddi 'Hail Mosley! Mosley! Mosley!'

*Disgrifiad o'r* Manchester Guardian *o un o gyfarfodydd mawr y BUF yn Neuadd Albert, Llundain, Ebrill 1934.*

Eto ac eto yn hanes hir yr hil ddynol, mae hiliau wedi brwydro i fod yn genhedloedd a chenhedloedd i fod yn ymerodraethau grymus; wedi dringo i uchelfannau hanes a meddwl eu bod yn ddiogel; ac yn awr, wedi'i gynnau gan fflam y fath ysbrydoliaeth, mae'r mudiad hwn yn codi o enaid Lloegr i roi i bawb, i herio pawb, fel y gall Lloegr fyw mewn mawredd a gogoniant.

*O araith Oswald Mosley yn Neuadd Albert, 22 Ebrill 1934.*

*(Cafodd y ddau ddarn eu dyfynnu yn Nicholas Mosley,* Rules of the Game/Beyond the Pale, *1998.)*

**4** Darllenwch Ffynhonnell E. Canfyddwch enghreifftiau o'r dyfyniadau hyn sy'n dangos tuedd y siaradwr/awdur a'i botensial i fod yn dreisgar.

## Ffynhonnell Dd




© TopFoto

*Cyfarfod BUF yn Sgwâr Trafalgar, 4 Gorffennaf 1937; cadwyn yr heddlu yn gwahanu'r Ffasgwyr a'r gwrth-Ffasgwyr.*

## Ffynhonnell E

**Ymosodiadau y BUF ar Iddewon**

Heddiw nid ydym yn ymosod ar yr Iddewon ar seiliau hiliol na chrefyddol; rydym yn derbyn yr her y maent wedi'i rhoi oherwydd eu bod yn ymladd yn erbyn ffasgaeth ac yn erbyn Prydain. Maent wedi datgan yn eu ffolineb mawr y byddant yn herio grym gorchfygol yr oes fodern. Heno rydym yn derbyn yr her honno: maen nhw'n ei fynnu, felly fe'i rhoddwn iddynt!

*O araith Oswald Mosley yn Neuadd Albert, 28 Hydref 1934.*

Nodwedd amlycaf yr Iddew yw ei fateroliaeth sydd yn rhoi iddo rym dinistriol ... Wrth ei hoffter mae'n fasnachwr, yn fancwr, yn ymhel â'r ocwlt, fel gwahadden mae'n gweithio dan ddaear, yn dawel ac ynghudd, ac fel ystlum mae'n gwibio drwy'r nos gan weld pethau na welir gan greaduriaid y dydd ...
... Mae hunanamddiffyn wedi'i orfodi i ddibynnu ar grefft a chyfrwystra, arfau'r gwan bob amser, ac i fod yn barod i gynghreirio â phob mudiad tanseiliol. Yn y rhain mae Iddewon yn gweld grym – grym i ddial am y cam â wnaed â hwy, a grym i dra-arglwyddiaethu ar y byd ...

*O erthygl o'r enw 'The Cancer of Europe', a gyhoeddwyd yn* Fascist Quarterly *Ionawr 1935, gan J.F.C. Fuller, cadfridog wedi ymddeol ac aelod diweddar o'r BUF.*

*(Cafodd y ddau ddetholiad eu dyfynnu yn Nicholas Mosley,* Rules of the Game/Beyond the Pale, *1998.)*

## Pam na wnaeth ffasgaeth lwyddo ym Mhrydain?

### Gwendidau a chamgymeriadau Mosley a'r BUF

Er bod gan Mosley ddeallusrwydd a sgiliau siarad cyhoeddus, nid oedd yn ymddangos fel pe bai'n gallu cystadlu â galluoedd Hitler neu Mussolini i symbylu cynulleidfaoedd mawr. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod ei gefndir yn fwy breintiedig na'u heiddo hwy, ac ymddangosai fel pe bai ganddo agwedd rywfaint yn nawddoglyd tuag at y dosbarthiadau gweithiol. Gwahaniaeth arwyddocaol arall oedd nad oedd ganddo natur ddidrugaredd y ddau arall a'u gallu i achub ar unrhyw gyfle.

### Cryfder y gwrthwynebiad i ffasgaeth ym Mhrydain

Yn wahanol i'r Almaen a'r Eidal, roedd plaid sefydledig y dde wleidyddol yn gallu cynnig dewis amgen credadwy i'r bygythiad canfyddedig o'r chwith. Roedd Stanley Baldwin, fel arweinydd y Ceidwadwyr o 1924 tan 1937, yn cyfuno consýrn i atal gwrthdaro dosbarth (syniadau Torïaidd 'One Nation' yn deillio o draddodiad Benjamin Disraeli) â'r gallu i fod yn galed pan oedd angen (fel y gwnaeth wrth wrthwynebu Streic Gyffredinol 1926). Mewn cyferbyniad, roedd yn anodd cyflwyno Plaid Lafur Ramsay MacDonald fel gwir fygythiad chwyldroadol o'i chymharu â sosialaeth a chomiwnyddiaeth yn Ewrop.

Ym Mhrydain nid oedd yr un o'r pleidiau mawr yn fodlon gweithio gyda Mosley, tra oedd ffigurau amlwg yn y sefydliad yn yr Eidal a'r Almaen yn fodlon cydweithredu â'r Ffasgwyr, gan roi rhywfaint o barchusrwydd a hygrededd iddynt. Yn 1934 gofynnwyd i'r wasg roi cyn lleied â phosibl o sylw i'r BUF, gan geisio ei hamddifadu o gyhoeddusrwydd. Yn 1936 cymerodd y llywodraeth gamau cadarn, gan basio'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus, oedd yn gwahardd lifrai gwleidyddol ac yn caniatáu i'r heddlu wahardd gorymdeithiau gwleidyddol. Roedd y Ffasgwyr hefyd yn wynebu protestiadau a gwrthdystiadau tanllyd gan y bobl pryd bynnag y byddent yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus neu orymdeithiau, gan arwain yn y pen draw at frwydr ddrwgenwog Cable Street (gweler Ffynhonnell Ff).

### Ffynhonnell F

**Beirniaid Mosley**

Roeddwn i'n ystyried Ffasgwyr Lloegr yn niwsans trafferthus yn hytrach na pherygl gwleidyddol. Roeddent hwy a'r Comiwnyddion yn arfer cynnal gwrthdystiadau yn gwrthwynebu'i gilydd yn Nwyrain a Chanol Llundain, a chreu trafferth annioddefol i'r heddlu wrth iddynt geisio atal eu brwydrau cyd-ddinistriol. Roedd Mosley'n wyllt pan waherddais bob gorymdaith mewn rhai ardaloedd, ac amddifadwyd ef a'r Black Shirts o'r cyfle i gogio bod yn arwyr mewn siwtiau duon smart.

*Syr Samuel Hoare, ysgrifennydd cartref, yn ei hunangofiant,* Nine Troubled Years, *1954.*

[Roedd Mosley yn ddyn] comon carismatig, gweledydd oedd yn trefnu dynion i greu trwbl.

*Roy Jenkins, yn ei fywgraffiad o'r prif weinidog Stanley Baldwin,* Baldwin, *1987.*

### Ffynhonnell Ff



© TopFoto

*Brwydr Cable Street, 1936*

**5** Darllenwch Ffynhonnell F. Pa mor ddibynadwy yw disgrifiad Syr Samuel Hoare o fygythiad Ffasgwyr Prydain?

**6** Lluniwch dabl i gymharu ffasgaeth ym Mhrydain a'r Almaen (neu'r Eidal). Ystyriwch agweddau megis: arweinyddiaeth, polisïau, propaganda a symbolau, aelodaeth, lefel y trais.

**7** Pam y gwnaeth ffasgaeth lwyddo i ennill grym yn yr Almaen (neu'r Eidal) ond nid ym Mhrydain?

## Cryfder democratiaeth ym Mhrydain

Gwneir cyferbyniad difyr yn aml rhwng democratiaethau 'sefydledig' Prydain ac UDA, a lwyddodd i ymdopi ag argyfwng economaidd y byd yn yr 1930au, a'i oroesi, a democratiaethau 'newydd' yr Eidal, yr Almaen a Japan, na wnaethant lwyddo. Ym Mhrydain fe chwalodd y llywodraeth Lafur ond llwyddodd Ramsay MacDonald i ffurfio 'Llywodraeth Genedlaethol', sef clymblaid oedd yn cynnwys Ceidwadwyr Baldwin.

Ni wnaeth Mosley a'r BUF erioed lwyddo i dorri drwodd i wleidyddiaeth y brif ffrwd gan nad oeddent yn gallu denu digon o bleidleisiau i gael AS i mewn i'r Senedd. Roedd system Prydain yn golygu bod angen i'r Ffasgwyr ennill digon o bleidleisiau mewn un etholaeth er mwyn ethol eu hymgeisydd ('cyntaf i'r felin') tra oedd y systemau pleidleisio yn yr Almaen a'r Eidal yn caniatáu i'r Ffasgwyr ennill canran o'r bleidlais ledled yr holl wlad ('cynrychiolaeth gyfrannol').

## Amgylchiadau economaidd a chymdeithasol Prydain

Er bod diweithdra ym Mhrydain wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y Dirwasgiad, a bod cyni economaidd sylweddol, yn enwedig yn ardaloedd diwydiannol y gogledd, ni wnaeth y sefyllfa erioed ymddangos mor dywyll ag yr oedd yn yr Almaen neu Japan. Er gwaethaf y toriadau, roedd y rhan fwyaf o'r di-waith yn cael taliadau budd-dal i gadw'u teuluoedd rhag llwgu.

## Digwyddiadau penodol

Ymddangosai fel pe bai ffasgaeth Brydeinig yn cael pethau o chwith ar adegau holl bwysig, gan fethu â manteisio ar ei chyfleoedd. Roedd cyfarfod torfol yn Olympia yn Llundain ar 8 Mehefin 1934 yn ymddangos yn rhy debyg i rali Natsïaidd i lawer o bobl Prydain. Cafodd y trais a ddefnyddiwyd gan stiwardiaid Ffasgaidd yn erbyn gwrthdystwyr gwrth-ffasgaeth sylw helaeth yn y wasg, gan synnu'r cyhoedd. Mewn cyd-ddigwyddiad, yn fuan wedi'r cyfarfod daeth y newydd am Noson y Cyllyll Hirion, a drefnwyd gan Hitler, ac a achosodd euogrwydd yn sgil cysylltiad.

Ar 4 Hydref 1936, gyda gwrth-Iddewiaeth Mosley'n dechrau dod yn amlycach, casglodd tua 100,000 o wrth-Ffasgwyr yn yr East End yn Llundain i rwystro gorymdaith herfeiddiol gan y BUF. Er y bu rhywfaint o ymladd ym Mrwydr Cable Street ar yr achlysur hwnnw, rhwng y gwrth-Ffasgwyr a'r heddlu y digwyddodd yr ymladd, gan fod yr heddlu'n ceisio cadw trefn a chadw'r ddwy ochr ar wahân. Yn wir, cydymffurfiodd Mosley â chyfarwyddiadau'r heddlu i roi'r gorau i'w orymdaith a gwasgarodd ei gefnogwyr – buddugoliaeth amlwg i'r grymoedd gwrth-Ffasgaidd. Meddai Pwyllgor Rhanbarth Llundain y Blaid Gomiwnyddol, 'Dyma golled llawn cywilydd, y fwyaf erioed o'r fath i unrhyw ffigur yng ngwleidyddiaeth Lloegr.' Ni chafodd y golled hon ei hachub gan unrhyw 'ferthyron', hyd yn oed, megis y rheini yr oedd Hitler yn gallu tynnu sylw atynt wedi Putsch Munich, ac aeth Mosley ar frys i'r Almaen, i briodi ei ail wraig yn gyfrinachol.

## Casgliad

Byddai'n braf meddwl bod Prydain, rywsut, gyda gafael rhy gryf ar ddemocrataidd i eithafiaeth Ffasgaidd allu tyfu, a bod hynny'n wir o hyd. Dehongliad llai cysurus fyddai fod ffasgaeth wedi methu ei chyfle yn yr 1930au oherwydd nad oedd gan ei harweinydd y carisma a'r natur ddidrugaredd angenrheidiol, na'r gallu i fanteisio ar ei gyfleoedd.